



# Ysgol Sarn Bach

## Llawlyfr 2020-2021



# Croeso i Ysgol Sarn Bach

Annwyl Rieni,

Rydym yn croesawu chi a'ch plentyn i Ysgol Sarn Bach. Tra bydd eich plentyn dan ein gofal gwnawn ein gorau i sicrhau y bydd yn hapus ac yn ddiogel ac yn cael y safon orau o addysg.

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chartrefol lle'r ymdrechir i hyrwyddo twf ysbrydol a moesol y plant. Yma mae cyswllt agos gyda phob teulu a gweithredir polisi o ymateb i broblemau neu anawsterau drwy eu trafod gyda'r rhieni.

Hoffwn weld bob plentyn yn edrych yn ôl ar ei blentyndod fel cyfnod hapus sydd wedi bod yn sylfaen gadarn i'w fywyd wrth iddynt ddatblygu'n ddinasyddion y dyfodol.

Partneriaeth yw addysg rhwng yr ysgol a'r rhieni er budd ein plant. Mae ein dylanwad a'r gefnogaeth yn amhrisiadwy yn natblygiad cymdeithasol ac addysgol eich plentyn. Hoffwn weld y bartneriaeth yma gweithio'n dda a bod anghneion y disgybl yn flaenoriaeth gennym ac yn codi uwchlaw popeth arall.

Yn gywir  
Mrs Nina Williams

## Manylion yr Ysgol

**Statws:** Ysgol Gynradd Sirol (Babanod/lau) yw'r ysgol hon.  
Mae'n ysgol ddyddiol, ddwyieithog, gydaddysgol.

### STAFF YR YSGOL – 2020-21

#### Staff Dysgu:

Pennaeth/ Athrawes Cyfnod Sylfaen - Mrs. Nina Williams  
Athrawon CA2- Miss Delyth Jones/ Mrs Bethan Evans

Cymhorthydd Dysgu Lefel Uwch: Mrs. Annwen Jones  
Cymhorthyddion Dosbarth: Mrs Non Crowther

#### Staff Ategol:

Cymhorthydd Clerigol: Mrs. Annwen Jones  
Cogyddes: Mrs Bethan Davies  
Glanhawr: Mr. Michael Rowlands

### LLYWODRAETHWYR YR YSGOL 2019-20

Cadeirydd y Llywodraethwyr Mr Robin Owen

|                        |                                                    |
|------------------------|----------------------------------------------------|
| Awdurdod Addysg Lleol: | Cyng. J. B. Hughes [is-gadeirydd]                  |
| Awdurdod Is:           |                                                    |
| Cyngor Cymuned         | Mr. Robert Morris Jones                            |
| Rhieni:                | Mr Robin Owen<br>Mrs. Llinos Owen<br>Ms. J. Pierce |
| Athrawon:              | Miss Delyth Jones                                  |
| Pennaeth:              | Mrs Nina Williams                                  |
| Staff Ategol:          |                                                    |
| Cyfetholedig:          | Miss Lona Roberts                                  |
| Cynrychiolydd Busnes   | Mr Bryn Jones                                      |
| Clerc:                 | Mrs. Annwen Jones                                  |

## Disgrifiad o'r Ysgol

Ysgol Gynradd Sirol (Babanod/lau) yw'r ysgol hon. Mae'n ysgol ddyddiol, ddwyieithog, gydaddysgol.

Mae dau ddosbarth yn yr ysgol eleni a addysgir fel a ganlyn:

Cyfnod Sylfaen – Mrs. Nina Williams

Blwyddyn 3 4, 5 a 6 – Miss Delyth Jones/ Mrs Bethan Evans

## Trefniant y Dosbarthiadau Medi 2020

|                                                                 | M | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6  | Cyfanswm |
|-----------------------------------------------------------------|---|---|---|---|---|---|---|----|----------|
| Cyfnod Sylfaen<br>Mrs Nina Williams                             | 3 | 2 | 4 | 4 |   |   |   |    | 13       |
| Blynnyddoedd 3,4,5 a 6<br>Miss Delyth Jones/Mrs<br>Bethan Evans |   |   |   |   | 7 | 5 | 9 | 11 | 32       |
|                                                                 |   |   |   |   |   |   |   |    | 45       |

## Polisi Derbyn

Derbynnir plant yn llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed ac am 2 awr y bore yn 3 oed. Mae hyn yn unol â pholisi'r Awdurdod Addysg.

Derbynnir plant ym mlwyddyn 4 o Ysgol Fabanod Abersoch ym mis Medi. Byddem yn ymdrechu ein gorau i groesawu plant newydd a sicrhau bod eu hamser yn Ysgol Sarn Bach yn un hapus i'r plant.

Ar ddiwedd blwyddyn chwech bydd y plant yn trosglwyddo i Ysgol Botwnnog, os mai dyna yw eich dymuniad. Cyflwynir gwybodaeth i chi mewn da bryd am yr ysgol hon ac fe drefnir cyfle i'r plant dreulio sawl diwrnod yno yn ystod eu blwyddyn olaf yn Ysgol Sarn Bach. Gwahoddir chwi fel rhieni i ymweld â'r ysgol a chyfarfod â Pennaeth yr ysgol Mr. Dylan Minnis.

Croesawir rhieni dalgylch yr ysgol i gysylltu â'r Pennaeth ar gyfer gwneud trefniadau i dderbyn y plentyn i'r ysgol. Dim ond trwy gysylltu a'r swyddfa addysg leol y gellir cychwyn trafodaeth ynglyn â derbyn plant all-dalgylch. Yn ystod Tymor yr Haf gwahoddir yr holl blant sydd yn dechrau'r ysgol ym Medi ynghyd â'r rhieni i dreulio cyfnod yn yr ysgol.

## GWYLIAU YSGOL 2020/21

| Gwyliau Ysgol         | Yn cychwyn         | Yn gorffen       |
|-----------------------|--------------------|------------------|
| Hanner Tymor Hydref   | 26 Hydref 2020     | 30 Hydref 2020   |
| Gwyliau Nadolig       | 21 Rhagfyr 2020    | 1 Ionawr 2021    |
| Hanner Tymor Gwanwyn  | 15 Chwefror 2021   | 19 Chwefror 2021 |
| Gwyliau Pasg          | 29 Mawrth 2021     | 9 Ebrill 2021    |
| Calan Mai (gwyl banc) | 3 Mai 2021         |                  |
| Hanner Tymor Haf      | 31 Mai 2021        | 4 Mehefin 2021   |
| Gwyliau Haf           | 20 Gorffennaf 2021 | 31 Awst 2021     |

Bydd yr ysgol yn ail-agor ddydd Mercher, 1 Medi 2021 i athrawon yn unig (diwrnod hyfforddiant).

Mae 4 diwrnod hyfforddiant arall i'w cymryd yn ystod 2021-22—manylion i ddilyn.

## **Amser Chwarae**

Bydd y plant yn cael chwarae ar yr iard neu ar y cae yn dibynnu ar y tywydd. Maent yn aros yn y dosbarthiadau yn ystod amser chwarae gwlyb lle bydd amrywiaeth o weithgareddau ar eu cyfer.

Mae amser chwarae yn y bore rhwng 10.45-11.00 a 2.15-2.30 yn y prynhawn.

Bydd y Siop Ffrwythau ar agor yn ystod amser chwarae bore lle caiff y plant ffrwyth am £1 yr wythnos neu ddod a'u ffrwythau eu hunain i fwyta amser chwarae. Er mwyn hwyluso trefniadau archebu ffrwythau gofynnir i ddisgyblion ymrwymo i wneud defnydd o'r siop ffrwythau am dymor ar y tro.

Caiff y plant lefrith yn ystod amser chwarae bore sydd am ddim i blant Cyfnod Sylfaen ac yn costio 50c i blant CA2.

Ni chaniatier fferins, siocled na chreision. Mae bob plentyn yn derbyn potel ddŵr a bydd disgwyl iddynt fynd a hi adref i olchi a'i llenwi. Dim ond dŵr rydym yn ddisgwyl weld yn y poteli.

## **Cau Mewn Argyfwng**

Pan fydd argyfwng e.e. Dim gwres neu tywydd garw byddwn yn gorfod cau yr ysgol ar fyr rybudd pan deimlon fod diogelwch y plant mewn perygl pe cedwir yn yr ysgol hyd diwedd y prynhawn yna byddwn yn gweithredu fel hyn:-

- A) cysylltwm gyda rhieni disgyblion er mwyn gwneud trefniadau i chi gasglu eich plant
- B)** Bydd gwybodaeth ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd

## **Cinio Ysgol**

Mae cinio iachus a maethlon ar gael yn yr ysgol bob diwrnod am £2.50 y dydd.

Mae system talu ar lein wedi cael ei sefydlu gan Gyngor Gwynedd, cewch fynediad i'r system drwy ymweld a safwe Cyngor Gwynedd.

Gofynnir am y sieciau i fod yn daladwy i 'Cyngor Gwynedd'.

Mae cinio am ddim ar gael i deuluoedd sy'n derbyn Cynhaliaeth Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith. Mae'r ffurflen ar gyfer y taliad yma ar gael yn yr ysgol.

Daw rhai plant a cinio eu hunain i'r ysgol. Mae Ysgol Sarn Bach yn rhan o Cynllun Ysgol Iach Gwynedd felly rydym yn hyrwyddo bocs bwyd iachus i'r plentyn sydd ddim yn cynnwys fferins na diod ffisi.

## Presenoldeb ac Absenoldebau

Mae gan yr ysgol ddyletswydd i sicrhau bod disgyblion yn mynychu'n rheolaidd. Yn unol â rheolau'r Cynulliad, mae'n rhaid i bob ysgol wahaniaethu rhwng absenoldeb awdurdodedig (salwch, ymweld â'r doctor a.y.y.b.) ac absenoldebau heb awdurdod. Gofynnwn i chwi adael i'r ysgol wybod am bob absenoldeb drwy nodyn neu alwad ffôn. Er diogelwch, bydd yr ysgol yn ffonio'r cartref ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb os na dderbynnir neges. Targed presenoldeb 2020/21 yr ysgol yw 96% ar gyfer pob plentyn.

### Absenoldebau awdurdodedig

Mae hyn yn cynnwys salwch neu apwyntiad meddygol. Mae modd hefyd gofyn am hyd at ddeng niwrnod o wyliau mewn un flwyddyn ysgol. Mae'r Pennaeth yn ystyried y ceisiadau hyn ar sail unigol. Rydym yn annog rhieni'n gryf i beidio â thynnu eu plant allan yn ystod y flwyddyn ysgol gan fod parhad yn bwysig i sicrhau dysgu effeithiol.

### Anawdurdodedig

Cofnodir unrhyw absenoldebau heb eu hesbonio fel rhai anawdurdodedig. Mae cofnodion am bresenoldeb yn cael ei gadw a'i fonitro gan yr Awdurdod Addysg Lleol.

Mae gan y Swyddog Llêr Addysg yr awdurdod hawl i ymweld â chartrefi unrhyw rieni yr ystyrir bod ffigyrau presenoldeb eu plentyn yn bryder i'r Ysgol a'r AALL.

Presenoldeb Ysgol Sarn Bach 2019/20

Presenoldeb=

Targed= 96%

## Oriau Dysgu

Mae'r oriau dysgu yn 22.5 awr yr wythnos i'r plant drwy'r dydd a 10 awr i'r plant Meithrin.

|                                  |                                                                                        |
|----------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------|
| Mae <b>sesiynau y bore</b> rhwng | 9:00 - 10:45 o'r gloch,<br>10.45 - 12.15 o'r gloch.<br>9.00 - 11.00 i'r plant meithrin |
| <b>Sesiwn y prynhawn</b> rhwng   | 1:15 – 2.15 o'r gloch<br>2.30 - 3.30 o'r gloch                                         |

Dylai'r plant gyrraedd yr ysgol yn brydlon am 8.50y.b.Fe fyddant yn cael eu cofnodi fel "hwyr" os byddant yn cyrraedd ar ôl 9.00a.m.

Nid oes hawl gan blentyn i adael tir yr ysgol heb ganiatâd a heb oedolyn i'w gyrchu.

## Rheolau'r Ysgol

- Bydd yr ysgol yn cychwyn yn brydlon am 9.00. Nid yw'r ysgol yn gyfrifol o unrhyw blentyn sy'n cyrraedd yr ysgol cyn 8.50 o'r gloch.
- Gan bod plant o Abersoch yn teithio ar fws cyhoeddus i'r ysgol yn y bore rydym yn dymuno i'r rhieni gysylltu cyn 9 o'r gloch os yw eu plentyn yn absennol. Golygai ein bod yn medru sicrhau bod y plant i gyd wedi cyrraedd i'r ysgol yn saff.
- Bydd yr ysgol yn gorffen am 3.30.
- Gan ein bod yn perthyn i Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd ni chaniateir dod a fferins, creision na diod heb law am ddŵr i'r ysgol.
- Gweithiai yr ysgol yn gydwybodol i sicrhau diogelwch y plant tra ar dir yr ysgol neu dan ofal athro/athrawes oddi allan i'r ysgol. Cyfrifoldeb y rhieni neu warchodwyr ydynt unwaith maent tu allan i giatiau'r ysgol ar ddechrau neu ddiwedd y dydd.
- Mewn achos o ddamwain neu salwch yn ystod oriau'r ysgol, gwneir pob ymdrech i gysylltu a'r rheini neu warchodwyr os bydd angen. Mewn achosion brys lle methir a chysylltu, bydd y Brifathrawes yn gweithredu yn ôl y galw.
- Nid yw'r ysgol yn gyrifol am unrhyw golled neu niwed i eiddo personol y disgyblion. Ni chaniateir teganau yn yr ysgol.
- Rydym yn disgwyl i bob plentyn ymddwyn yn gwrtais a chymwynasgar tuag at unigolion o fewn yr ysgol. Rydym eisiau cadw enw da'r Ysgol er mwyn i aelodau'r cyhoedd a sefydiladau rydym yn ymweld â hwy i barhau i ddiolch a gwerthfawrogi ymddygiad y plant.
- Rydym yn disgwyl i bob plentyn barchu eiddo'r ysgol ac eiddo plant eraill.
- Os yw plentyn angen unrhyw feddyginiaeth o fewn oriau'r ysgol bydd angen i'r rhiant lenwi ffurflen ganiatad. Mae'r ffurflen ar gael gan y Brifathrawes.
- Os yw eich manylion cyswllt yn newid rydym yn gofyn wrthyich adael i'r ysgol wybod yn syth.
- Bydd rhaid hysbysu'r ysgol os oes unrhyw newid mewn trefniant casglu'r plant o'r ysgol.



## Iechyd Diogelwch

Mae diogelwch y disgyblion, y staff ac ymwelwyr yn flaenoriaeth genym yn Ysgol Sarn Bach. Mae'r llywodraethwyr yn sicrhau diogelwch yr adeilad ac eiddo'r ysgol. Mae asesiadau risg wedi eu paratoi i sicrhau fod gweithgareddau'r ysgol mor saff a diogel a phosib. Bydd asesiadau risg yn cael eu paratoi cyn unrhyw drip tu allan i ffiniau'r ysgol.

## Damweiniau a Meddyginiaethau

Bydd staff yr Ysgol yn gofalu am unrhyw blentyn sydd yn mynd yn sâl neu cael damwain a'i gysuro. Mae gan dwy o staff yr ysgol gymhwyster Cymorth Cyntaf fel ein bod yn gallu sicrhau bod yna staff cymwysedig ar dir yr ysgol bob amser. Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf sylfaenol. Bydd unrhyw ddamwain yn cael ei gysidro a'i asesu gan y Cymorthydd Cyntaf ac yna bydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhiant i gasglu eich plentyn os fydda angen.

Mae'n hanfodol bwysig bod yr ysgol yn cael gwybod yn syth os yw eich manylion cyswllt yn newid. Bydd cofnod o bob damwain yn cael ei gadw mewn ffeil ac mi fydd staff yr ysgol yn ffonio adref i egluro beth ddigwyddodd.

Mewn achosion brys lle na ellir cysylltu gyda'r rhieni bydd y Cymorthydd Cyntaf yn ymateb a gweithredu yn ôl y galw.

## Ethos ac Ymddygiad

Mae 'r Ysgol yn mynnu ymddygiad bositif a chadarnhaol gan holl blant yr ysgol. Credwn bod hyn yn gwreiddiol er mwyn cyflwyno addysg orau a sgiliau bywyd bositif i'r plant. Os nad yw plentyn yn cyd-ymffurfio a rheolau a disgwyliadau'r ysgol byddem yn dilyn canllawiau o fewn y Polisi Ymddygiad. Rydym yn derbyn ymateb gadarnhaol iawn gan sefyldiadau mae'r plant yn ymweld â nhw yn gyson gan eu bod yn ymddwyn yn fanesol a chwrtais gyda'u gilydd a gyda oedolion bob amser.

## Trefn Gwyno

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion Adran 23 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae Cyrff Llywodraethu ar ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig.

Mae'r mwyafrif o gwynion yn ganlyniad camddealltwriaeth neu gyfathrebiad gwael. Os ydym yn benderfynol o ddatrys anhawster a fydd yn bodloni'r naill ochr a'r llall, credwn fod angen dealltwriaeth lawn o'r trefniadau ar gyfer gwneud cŵyn yn ogystal ag agwedd gadarnhaol tuag at wella'r sefyllfa.

Dylai rhiant sy'n dymuno cwyno am drefniadaeth neu gynnwys y cwricwlwm ddilyn y drefn ganlynol:

(a) Cysylltu â'r pennaeth. Gwneir ymchwiliad i'r achos gan y Pennaeth (neu aelod o'r staff a enwebir gan y Pennaeth) ac fe ymatebir i'r rhiant yn uniongyrchol. (Dylai mân-gwynion gael eu trafod â'r athro/athrawes unigol. Os na fydd rhiant yn fodlon â'r ymateb, yna dylid cysylltu â'r pennaeth.)

(b) Os na fydd rhiant yn fodlon â'r ymateb, dylid ysgrifennu at Gadeirydd y Corff Llywodraethu. Gwneir ymchwiliad gan aelodau Pwyllgor Cwynion y Corff Llywodraethu ac fe ymatebir ganddynt.

Mae manylion y drefn yn llawn ar dudalen we'r ysgol.

## **Amddiffyn Plant**

Mae'n ofynol i'r ysgol hon ddilyn canllawiau clir a phendant o'r Ddeddf Diogelu Plant. Mae yna ddyletswydd ar yr athrawon a staff ategol adnabod arwyddion o gamdriniaeth neu esgeleustod a mynegi eu pryderon y syth.

### **Y Personau Cyfrifol am Amddiffyn Plant**

#### **Cyd-gysylltydd –**

Mrs Nina Williams, Pennaeth Ysgol Sarn Bach,  
Rhif ffôn cyswllt- 01758 71 2714

#### **Aelodau'r Llywodraethwyr-**

Mrs Gwenan Gruffydd  
Rhif ffôn cyswllt- 01758 713534

#### **Aelod o'r Awdurdod-**

Mrs Carys Roberts, Tim Cyfeiriadau Plant, Ffordd y Cob, Pwllheli  
Rhif ffôn cyswllt- 01766 772577

Dylid cysylltu gyda'r person cyswllt yn yr awdurdod neu'r llywodraethwyr os oes honiadau sydd yn ymwneud ag amddiffyn plant yn gysylltiedig â'r pennaeth.

## Trefniadau cyrraedd a gadael yr ysgol

### Yn y bore

Bydd drysau'r ysgol yn agor am 8.50 y bore. Rydym yn annog y plant i fod yn annibynnol o oedran ifanc felly bydd y rhieni yn gadael y plant yn ngiat yr ysgol a bydd y plant yn dod i mewn a rhoi eu côt a'u bagiau ar y peg a mynd i'r dosbarthiadau nes bydd y gloch yn canu am 9.00. Mae rhai plant yn aniscr yn ystod y flwyddyn gyntaf yn yr ysgol felly mae croeso i'r rhieni ddanfôn eu plant i'r dosbarthiadau. Fel arfer erbyn iddynt ddod i'r ysgol yn llawn amser maent yn ddigon hyderus i ddod i mewn eu hunain.

### Diwedd y Dydd

Ar ddiwedd dydd bydd y rhieni yn aros wrth giatiau'r ysgol nes bydd aelod o staff yn hebrwng y plant i lawr at y ddau fws wrth y giat. Unwaith mae'r bysus wedi cychwyn byddwn yn rhuddhau plant i'r rhieni wrth y giat, fel bod pob plenty yn medru croesi yn ofalus gyda'i rhiant.

## **Gwisg Ysgol**

Mae gan yr ysgol wisg swyddogol rydym yn falch ohonni. Rydym yn annog pob rhiant ysgrifennu enw eu plentyn ar bob dilledyn ac eiddo personol. Dylai disgyblion wisgo dillad addas a chyfforddus ac esgidiau sydd yn ddiogel i rhedeg a chwarae ynddynt. Mae siwmperi ysgol ar gael o siop "Clothworld" ym Mhwlheli

## **Gwisg Addysg Gorfforol**

Caiff y plant wisgo eu hwdis yn ystod amser chwarae neu ar Ddydd Gwener pan maent yn cael gwersi Addysg Gorfforol. Nid ydym yn dymuno i'r plant wisgo eu hwdis yn lle eu siwmperi glas ysgol sy'n rhan o'u gwisg swyddogol.

## **Perthynas Ysgol a'r Cartref**

Rydym yn Ysgol Sarn Bach yn credu'n gryf mewn perthynas hapus ac iach rhwng yr ysgol a'r cartref. Gobeithiwn feddwl y gallai unrhyw riant deimlo y gallai ddod i'r ysgol i fynegi unrhyw bryder ynglyn ag addysg neu hapusrwydd eu plant. Rydym yn gofalu am unigolion mwyaf gwerthfawr yn y byd i'r rhieni. Gan fod y Brifathrawes yn dysgu gofynir i chwi ffonio'r ysgol i wneud apwyntiad a byddwn yn eich croesawu am sgwrs pan mae hi'n ymarferol bosib.

Mae datblygiad addysgol eich plentyn yn dibynnu ar pa mor effeithiol ydy'r cyd-weithrediad rhwng yr Ysgol a'r cartref. Mae hi'n broses sy'n gweithio y ddwy ffordd. Disgwyliwn i'r rhieni dreulio amser yn darllen a helpu y plant gyda unrhyw waith cartref neu waith ychwanegol a drefnwyd gan yr ysgol er mwyn datblygu y plentyn ymhellach er llês yr unigolyn.

## **Gwaith Cartref**

Bydd gwaith cartref yn cael ei osod yn wythnosol i holl blant yr ysgol. Ceisiwn osod gwaith cartref sydd yn atgyfnherthu gwaith y dosbarth neu sy'n ymwneud â thema'r dosbarth. Mae'n fodd o sicrhau bod plentyn yn meithrin yr hyder i weithio'n annibynnol tu allan i sefyllfa'r dosbarth/ ysgol. Mae'n gyfle i'r rhieni gymryd rhan weithredol yn addysg y plant.

Dylai pob gwaith cartref fod yn adlewyrchiad o ymdrech gorau pob plentyn. Nid yw'r athrawon yn fodlon derbyn gwaith blêr sy'n îs na gallu'r plentyn a bydd disgwyl i'r plentyn ail wneud y gwaith. Disgyblion yn unig sydd i gyflawni gwaith cartref ac nid unrhyw un arall ar eu rhan.

## **Cynllun Darllen gyda fi!**

Mae'r ysgol yn ceisio hybu rhieni i gyd-ddarllen gyda'r plant o'r meithrin hyd at blwyddyn 6. Bydd yr ysgol yn darparu bag ysgol i'r plant ddal eu llyfrau yn drefnus a disgwylir i'r plant ddychwelyd eu llyfrau yn ddyddiol ond ddim mor aml erbyn iddynt ddatlbygu i fod yn ddarllenwyr da. Rydym yn annog y rhieni i gofnodi yn eu llyfrau cofnod.

## Trosglwyddo gwybodaeth i Rieni

### Dosbarthu llythyrau

Byddem yn dosbarthu llythyrau i'r rhieni drwy e-bost yn bennaf neu drwy law y plentyn hynaf yn y teulu. Bydd unrhyw newyddion neu wybodaeth cyffredinol yn cael ei gyflwyno drwy wefan yr ysgol. Mae gan yr ysgol ffôn symudol lle rydym yn gallu gyrru neges destyn gydag unrhyw nodyn sydyn i'r rhieni neu trefniadau ac amseroedd dod adref o dripiâu.

### Adrodd ar Ddatblygiad eich plentyn

Bydd cyfarfod rhieni yn cael ei gynnal yn yr ysgol yn ystod Tymor yr Hydref a diwedd Tymor y Gwanwyn. Yma cewch gyfle i drafod unrhyw ddatblygiad a cynnydd eich plentyn. Rhoddir dargedau i'r plant weithio arnynt er mwyn datblygu ymhellach. Bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno yn ystod Tymor yr Haf ar ddatblygiad a cynnydd y plentyn yn ystod y flwyddyn.

### Cymdeithas Rieni

Mae Cymdeithas Rieni weithgar iawn wedi sefydlu yn Ysgol Sarn Bach ac mae croeso i'r holl rieni gyd-weithio i ymggyraedd at yr run nôd sef codi arian ar gyfer adnoddau ac addysg eu plant, dod i adnabod rhieni eraill ac i drafod pynciau addysgol.

Bydd yr Ysgrifenyddes Bethan Hughes yn cysylltu gyda chwi drwy lythyr i'ch hysbysu pryd fydd y cyfarfodydd.

Gobeithiwn fel ysgol weld y rhieni i gyd yn mynychu'r cyfarfodydd hyn.

## **Polisi Iaith**

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion Gwynedd a hefyd, yn datblygu polisi dwy ieithog ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach.

Yr amcan yw datblygu gallu digybion a myfyrwyr i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelod cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Dylai holl sefydliadau addysg y Sir adlewyrchu ac atgyfnherthu polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ac yn eu darpariaeth academaidd.

Ysgol naturiol Gymraeg yw Ysgol Sarn Bach ac mae'r staff a'r disgyblion yn ymdrechu'r galed i gadw naws ac awyrgylch Gymreig yr ysgol. Ni ddylai'r rhai ohonoch sydd â'ch plant yn rhan o sefyllfa ddwyieithog am y tro cyntaf deimlo o dan fygythiad na theimlo nad ydych chi'n perthyn. Efallai nad ydych yn siarad Cymraeg, er bod llawer o'r rhieni yn dewis dysgu'r iaith, ond gobeithiwn y byddwch yn parchu'r awyrgylch sy'n bodoli yma, awyrgylch sy'n cyfoethogi cymaint ym mhob ystyr ar brofiadau dysgu'r plant. Parchwn eich hawl chi i ddefnyddio'r iaith a ddewisir gennych, ac i'r diben hwnnw, byddwch yn derbyn gohebiaeth dwy ieithog o'r ysgol.

## **Addysg Feithrin**

Sicrhau, drwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod a ddwyieithrwydd llawn maes o law.

## **Cyfnod Sylfaen**

Adeiladu ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin, cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

## **Iau**

Cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen, ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Pan ddau hwyrddyfodiad i mewn i'r ysgol h.y. plentyn nad yw'n siarad Cymraeg o gwbl, yna cynigir cwrs brys o dymor iddynt yn y Ganolfan Hwyrddyfodiad yn Llangybi. Yno bydd y plentyn yn rhan o grŵp dysgu bychan a bydd yn cael ei ddysgu gan arbenigwyr mewn dysgu Cymraeg fel ail iaith. Yn ystod y tymor byddant yn dilyn y cwricwlwm ysgol arferol yn ogystal â chael dysgu Cymraeg. Cludir y plant i'r canolfannau yn rhad ac am ddim.

## **Polisi Codi Tâl**

Yn gyffredinol, ni chodir tâl am weithgareddau addysgol ond polisi'r ysgol yw codi tâl am weithgareddau sy'n digwydd y tu allan i oriau'r ysgol neu nad ydynt yn rhan o'r cwricwlwm, megis gwersi offerynnol gofynnir am gyfraniad gwirfoddol tuag at gostau fel teithiau addysgol, costau bws i fynd i nofio/ gwersi addysg gorfforol a tripiau lleol. Gofynnir i rieni dalu am ymweliadau preswyl. Ni chaiff unrhyw blentyn ei atal o unrhyw weithgaredd ar sail amharodrwydd neu'r gallu i gyfrannu yn wirfoddol.

## **Polisi Addysg Rhyw**

Yn unol a Deddf Addysg 1986 disgywlr i Gyrff Llywodraethol ysgolion ystyried os dylai addysg rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm seciwlar. Os ydynt o'r farn y dylai addysg rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm, mae gofyn iddynt lunio ac adolygu datganiad ysgrifenedig o'u polisi o safbwynt cynnwys a threfniadaeth.

Mae llywodraethwyr yr ysgol hon wedi penderfynu dysgu addysg rhyw fel rhan o gwricwlwm yr ysgol. Gwneir hyn fel rhan o'r gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol sy'n ymwneud a llawer o faterion yn ymwneud a datblygiad yr unigolyn.

Mae gennych hawl i dynnu eich plentyn allan o wersi addysg rhyw h.y. yr elfennau nad ydynt yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Eich cyfrifoldeb chi yw gadael i'r pennaeth wybod hynny.

## **Crefydd**

Nid yw'r ysgol hi'n yn dal cysylltiad uniongyrchol a ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol.

Mae'r addysg grefyddol a gyflwynir yn seiliedig ar faes llafur cydnabyddedig yr Awdurdod. Gellir archwilio copi o'r maes llafur hwn yn yr ysgol.

Gellir gwneud trefniadau ar gyfer plant nad yw eu rhieni am iddynt fynychu'r gwasnaethau crefyddol neu astudiaeth cyffelyb.

## **Polisi Cyfle Cyfartal**

Nod Polisi'r Ysgol yw i roi cyfle cyfartal i bob plentyn yn ystod eu gyrfa ysgol beth bynnag yw ei ryw, oed, iaith tras a'i allu. Mae'r polisi yn cadarnhau fod yr ysgol yn meithrin agweddau cymdeithasol cadarnhaol, yn sicrhau profiadau eang ac yn annog cyd-weithio hapus ac adeiladol.

## **Polisi Hygyrchedd**

Mae'r Ysgol wedi ei dynodi gan yr awdurdod fel ysgol sydd a'r adnoddau i dderbyn disgyblion ac anabledau. Mae'r ysgol yn sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm i bob plenty. Paratoir lythyrau o'r ysgol, ar lafar neu gyda phrint bras i rieni os oes angen.

## **Cydraddoldeb Hiliol**

Mae'r ysgol yn chware ei rhan mewn dileu hiliaeth a rhoi gwerth a bri ar amrywiaeth.



## Cyfnod Sylfaen

Cwricwlwm ar gyfer plant oedran Meithrin hyd at Blwyddyn 2 yw'r Cyfnod Sylfaen. Yn y Cyfnod Sylfaen mae'r ffocws ar ddarparu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau drwy ysgogi gweithgareddau chwarae strwythuredig sy'n cael eu gwau i'r profiadau dysgu.

Mae saith maes dysgu i'r Cyfnod Sylfaen-

Datblygiad Personol a Chymderithasol  
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu  
Datblygiad Mathemategol  
Datblygiad Creadigol  
Datblygiad Corfforol  
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Rydym yn gosod pwyslais ar ddatblygu'r plant mewn sgiliau a dealltwriaeth, llês personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol er mwyn datblygu'r plentyn cyfan. Annogir y plant i ddatblygu hunan-barch a hunan-hyder i arbrofi, ymchwilio, dysgu pethau newydd a ffurfio perthynas newydd ag eraill er mwyn annog eu datblygiad fel unigolion.

## Datblygiad Personol, Cymdeithasol a Lles

Mae'r maes hwn o ddysgu yn canolbwyntio ar y plant yn dysgu amdanynt eu hunain a'u perthynas gyda phlant ac oedolion eraill. Anogir hwy i ddatblygu eu hunan-barch, eu credoau personol a'u gwerthoedd moesol. Mae'r Cam Sylfaen yn cefnogi nunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, i ddathlu gwahanol ddiwylliannau a chynorthwyo plant i adnabod ac ennill ymwybyddiaeth gadarnhaol o ddiwylliant eu hunain ac un eraill. Cefnogir y disgyblion i ddod yn feddylwyr a dysgwyr hyderus, hyfedr ac annibynnol.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dilyn Cwricwlwm Wester Stratton ac Ysgol Dina i hyrwyddo eu datblygiad lles, emosiynol a chymdeithasol. Cynhelir sesiynnau yn wythnosol.



## **Sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**

Mae'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar y disgyblion yn cael amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau ieithyddol. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau siarad a gwranddo'r plant, a fydd yn gosod sylfaen gadarn i ddatblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu. Mae'r disgyblion yn cyfeirio at eu bwriadau drwy ofyn cwestiynau, mynegi barn, adweithio i sefyllfaoedd a gwneud dewisiadau drwy amrywiaeth o gyfryngau. Anogir hwy i wrnado ar erail ac ymateb iddynt. Maent yn cael cyfleoedd i ddewis a defnyddio deunyddiau darllen, yn deall confensiynau argraff a llyfrau a rhoddir iddynt ystod eang o gyfleoedd i fwynhau gwneud marciau ac ysgrifennu.

## **Datblygiad Mathemategol**

Mae'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar blant yn datblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fathemateg drwy ddatrys problemau. Maent yn defnyddio rhifau yn eu gweithgareddau dyddiol ac yn datblygu ystod o ddulliau hyblyg ar gyfer datblygu mathemateg pen er mwyn datrys problemau o amrywiaeth o gyd-destunau, gan symud i ddefnyddio dulliau yn ddatblygiadol. Maent yn ymchwilio i siâp a mesur, yn trefnu, cyfatebu a dilyniannau a chymharu gwrthrychau a chreu patrymau.

## **Datblygiad Creadigol**

Mae'r maes dysgu hwn yn canolbwyntio ar blant yn datblygu eu dychymyg a'u creadigrwydd drwy'r cwricwlwm. Ysgogir eu chwilfrydedd naturiol a'u tueddiad i ddysgu gan brofiadau synhwyrol bob dydd. Mae'r disgyblion yn ymrwmo mewn gweithgareddau creadigol, dychmygus a mynegiannol mewn celf, crefft, cynllunio cerddoriaeth, dawnys a symud.



## **Datblygiad Corfforol**

Canolbwyntir yn y maes yma ar agweddau a datblygiad corfforol y plant. Bydd brwdfrydedd ac egni plant yn cael eu hannog yn barhaus i ddefnyddio eu cyrff yn effeithiol drwy hybu eu hymwybyddiaeth ofodol, eu cydbwysedd eu rheolaeth a'u sgiliau cydsymud, a datblygu eu sgiliau echddygol a llawdriniol. Anogir y plant i fwynhau gweithgar-eddau corfforol a chysylltir eu synnwyr datblygol a hunaniaeth yn agos â'u hunan-ddelwedd, eu hunan-werth a'u hyder. Cyflwynir i'r disgyblion gysyniad iechyd, hylendid a diogelwch a phwysigrwydd diet, gorffwys, cwsg ac ymarfer.

## **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

Mae'r maes dysgu hwn yn annog y plant i brofi'r byd cyfarwydd trwy ymholi, gan archwilio mewn modd diogel a systematig yr amgylchedd a geir dan do ac yn yr awyr agored. Cynigir profiadau iddynt sy'n eu helpu i gynyddu eu chwilfrydedd ynghylch y byd sydd o'u cwmpas a'u helpu i ddechrau deall digwyddiadau'r gorffennol, pobl a lleoedd, pethau byw, a'r gwaith y mae pobl yn ei wneud. Byddent yn dysgu dangos gofal, cyfrifoldeb, consyrn a pharch at bob peth byw a'r amgylchedd.



## Y Cwricwlwm Cenedlaethol

Cylfwynir cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n ymwneud â datblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol, cymdeithasol, corfforol ac emosiynol y plentyn. Gwneir hyn yn bennaf drwy'r dull thematig. Gellir gweld y dogfennau yn yr Ysgol.

<https://llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-trosolwg>

## Rhifedd

Mae syniadau a thechnegau mathemategol yn rhan hanfodol o fywyd pob dydd ac yn cyfrannu'n sylweddol at ein dealltwriaeth o'r byd o'n cwmpas.

Anelir yr ysgol i ddatblygu agwedd bositif tuag at fathemateg fel pwnc diddorol i'w fwynhau. Ceisiwn ddatblygu yn y plentyn y gallu i feddwl yn glir ac yn rhesymegol gyda hyder ac ystwythder fydd yn arwain at y ddawn i fynegi syniadau'n glir, drafod y pwnc gyda sicrwydd ac i ddefnyddio iaith fathemategol a'i gymhwyso i sefyllfaoedd yn y cartref, yr ysgol a'r gymdeithas.

## Gwyddoniaeth

Mae gwyddoniaeth yn rhan o fywyd a bydd y plentyn yn datblygu;

- Meddwl dadansoddol a beirniadol drwy ddilyn dulliau rhesymegol a darganfod yn seiliedig ar arsylwi, dyfalu ac arbrofi;
- Dealltwriaeth o bethau byw a phrosesau sylfaenol bywyd;
- Dealltwriaeth o'r modd y gellir defnyddio a datblygu adnoddau'r amgylchfyd.

Ymdrinnir â materion rhyw mewn ffordd sensitif yn y gwersi Addysg Personol a Chymdeithasol a Gwyddoniaeth.

## **Iaith**

Mae iaith yn ddylanwad unigryw yn natblygiad plentyn ac yn sylfaen pob dysg. Ceisiwn feithrin agwedd gadarnhaol at iaith drwy gynnig i blentyn amrywiol brofiadau a fydd yn symbylu ymateb synhwyrol, bywiog a deal-lus a fydd yn datblygu gallu ieithyddol plentyn yn ei holl agweddau god-defol a gweithredol- a hynny yn y ddwy iaith.

Byddwn yn meithrin diddordeb plentyn mewn llenyddiaeth yn ei hamryfal ffurfiau gan sicrhau bod y profiad o ddarllen, gwrando, gwyllo ac ymateb bob amser yn bleserus ac yn foddhaus. Drwy wneud hyn, byddwn yn creu yn y plentyn ymwybyddiaeth o werth yr etifeddiaeth Gymreig fel y gall ymdeimlo â chyfoeth i gefndir (cynhenid neu fabwysiedig) a pharchu gwahanol ddiwylliannau.

## **Gwrando**

Datblygu gallu plentyn i wrando'n effeithiol mewn sefyllfaoedd torfol, sefyllfaoedd grŵp ac fel unigolyn er mwyn iddo gael pleser neu ddiddanwch, ymateb i gyfarwyddyd ac ymateb yn greadigol.

## **Siarad**

Datblygu gallu plentyn i siarad yn glir, yn ddealladwy ac yn hyderus mewn iaith briodol i'r sefyllfa dan sylw, gan ymarfer gofal a chywirdeb.

## **Darllen**

Meithrin y plentyn fel darllenwr o'r cychwyn cyntaf y gall:

- Gael pleser neu ddiddanwch;
- Ddyfnhau ei ddealltwriaeth a chasglu gwybodaeth
- Gwerthfawrogi llyfrau da.

## **Ysgrifennu**

Rhoi cyfle i'r plentyn ymateb yn ysgrifenedig i wahanol brofiadau a sefyllfaoedd ac i ysgrifennu i wahanol ddibenion fel y gall;

- Ddefnyddio ysgrifennu fel cyfrwng i ddod i delerau â'ifyd;
- Ddefnyddio ysgrifennu i ddyfnhau'i ddealltwriaeth;
- Ddewis a defnyddio ffurf ar ysgrifennu sy'n briodol ar gyfer y pwrpas sydd iddo.

## **Dylunia a Thechnoleg**

Prif nodwedd Dylunio a Thechnoleg yw'r ffaith ei fod yn rhoi cyfle i ddisgyblion wireddu a chynrychioli syniadau o'r dychymyg ar ffurf darluniau, cynlluniau, modelau, arddangosfeydd ac efelychiadau cyfrifiadurol. Mae datblygiad syniadau o'r egin cyntaf i'r penllanw fel canlyniad ymarferol yn broses a elwir yn Broses Dylunio.

## **Addysg Grefyddol a Chyd-Addoli**

Mae gwasanaethau boreol yr ysgol yn rhan bwysig o ethos ac ymdeimlad yr ysgol. Cysylltir yr agwedd grefyddol â phrofiadau plant yn eu bywydau beunyddiol, gan bwysleisio'r agwedd o feddwl am eraill a gofalu amdanynt. Cyflwynir gwybodaeth am grefyddau'r byd ond pwysleisir y grefydd Gristnogol. Trefnir casgliadau tuag at achosion dyngarol lleol a chenedlaethol.

Rhoddir hawl i rieni i eithrio'u plant o wersi Addysg Grefyddol a Chydaddoliad os bydd rhesymau priodol.

## **Cerddoriaeth**

Mae gwersi Cerddoriaeth sy'n cynnwys canu, cyfansoddi a gwaith offerynnol yn cael eu cynnal yn wythnosol. Bydd yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuthau'r Urdd.

Mae cyflei'r plant o flwyddyn 2 ymlaen gael gwersi offerynnau pres. Yn anffodus mae'n rhaid codi ffi am y gwersi.

Mae'r gwersi yma yn llwyddiannus iawn.

Cynhelir Cyngherddau Nadolig yn y neuadd lle caiff pob plentyn y cyfle i ymddangos ar y llwyfan.

## **Addysg Gorfforol**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd sy'n symbyliad ac yn ddiogel i ddisgyblion lle gallant weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol wrth ddatblygu sgiliau corfforol. Darperir gweithgareddau sy'n rhoi mwynhad i'r disgyblion wrth ddiwallu eu hanghenion creadigol. Byddwn yn dysgu a darparu cyfle i ymarfer a gwella ar sgiliau sy'n berthnasol i'r gweithgaredd. Trefnir cwrs o wersi nofio ym mhwl nofio Pwllheli i'r holl ysgol drwy'r flwyddyn. Teimlir fod cyfnodau fel hyn yn ddull mwy llwyddiannus o gael y plant i nofio. Anelir at gael pob plentyn yn nofio o leiaf 25m cyn diwedd Blwyddyn 6.

## **Technoleg Gwybodaeth**

Mae'r Datblygiadau diweddaraf ym myd addysg wedi rhoi statws uchel i Dechnoleg Gwybodaeth, ynghyd â disgrifiad clir o natur y pwnc. Nodweddir gallu Technoleg Gwybodaeth gan allu i ddefnyddio offer a ffynonellau gwybodaeth T.G. yn effeithiol i ddadansoddi, prosesu a chyflwyno gwybodaeth ac i fodelu, mesur a rheoli digwyddiadau allanol. Yn Ysgol Sarn Bach rhoddir pwyslais ar ddatblygu T.G. drwy bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, a gwelir y cyfrifiadur fel 'arf trawsgwricwlaidd'. Mae'r ysgol yn diweddarau adnoddau T.G.Ch yn gyson ac mae hyn yn cynnwys cysylltiad di-wifr drwy'r ysgol.



## **Fframwaith llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol**

Yn Ionawr 2013 cyflwynwyd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh) Genedlaethol i ysgolion cymru gan y Llywodraeth. Ers Medi 2013 mae'n statudol i bob plentyn o flwyddyn Derbyn i B6 ei ddilyn. Ei phwrpas yw sicrhau fod gwaith rhifedd a llythrennedd addas i oedran a gallu y plentyn yn cael ei blethu i bob pwnc/ maes a ddysgir yn yr ysgol.

Yn Ysgol Sarn Bach 'rydym yn cynllunio i sicrhau bod cyfle i blant ymarfer a datblygu'r sgiliau hyn ar draws yr holl gwricwlwm a thrwy'r ysgol. Rydym yn dysgu'r sgiliau hanfodol yn y gwersi iaith a mathemateg ac yna mae'r plant yn cael ymarfer y sgiliau mewn pynciau eraill. Mae adran arbennig ar safle we'r ysgol sydd yn cynnig arweiniad pellach a syniadau am weithgareddau addas.

### **Y Fframwaith Sgiliau**

Yn o gystal a llythrennedd a rhifedd mae Fframwaith Sgiliau Cymru yn cynnig arweiniad i ddatblygu sgiliau eraill ar draws y cwricwlwm. Mae Ysgol Sarn bach yn manteisio ar bob cyfle i feithrin y sgiliau yma.

**Datblygu Meddwl**

Bydd y plant yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau cynllunio, datblygu a myfyrio.

**Datblygu Technoleg Gwybodaeth**

Bydd y disgyblion yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

### **Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang**

Bydd y plant yn datblygu'r sgiliau, gwybodaeth, agweddau a'r gwerthoedd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau yn unigol ac ar y cyd ar lefel lleol a byd-eangm a fydd yn gwella ansawdd bywyd yn y presennol heb niweidio'r blaned ar gyfer y dyfodol.



## Celfyddydau

Mynegiant yw celfyddyd lle defnyddir plentyn ei synhwyrâu i sylwi, i ddychmygu, i ryfeddu ac i greu. Credwn yn gryf fod gan y celfyddydau swyddogaeth bwysig iawn yn natbylgriad y plentyn a byddwn yn ei ysgogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol, drama, symud a dylunio, crefft a thechnoleg. Yn yr ysgol rhoddir gyfel i blentyn i roi ei ddychmyg, ei wreiddioldeb a'i chwilfrydedd ar waith.

## Dyniaethau

Fel rhan o'r gwaith themau y cyflwynir yn y dyniaethau a'n hamcanion yma yw datblygu plant sy'n mynd i dyfu i fod yn aelodau cyflawno'u cymunedau ac yn oedolion sy'n mynd i gyfrannu'n gadarnhaol tuag at ddyfodol eu cymuned ac, ar yr un pryd i feithrin parch tuag at yr amrywiaeth o werthoedd a chymdeithasau gwahanol sydd i'w cael yn y byd.

Drwy astudiaethau daearyddol ceisir cyflwyno fframwaith o wybodaeth am leoliad a lleoedd ac am nodweddion pwysig cyfundrefnau ffisegol y Ddaear ac effaith dyn ar ein amgylchfyd. Rhoi ymdeimlad o'r gorffennol a ffordd o fyw yw ein hamcan wrth gyflwyno hanes i'n plant. Ceisir datblygu ynddynt ymdeimlad o amser, dilyniant, newid a chronoleg i'w cael i sylweddoli sut mae'r gorffennol wedi ffurfio'r gymdeithas a'r byd y maent yn rhan ohono a hefyd i gael perspectif o'r presennol – ei werthoedd, ei arferion a'i gysylltiadau.

## Y Cwricwlwm Cudd

Ar wahanân i arbenigedd unigol y staff addysgu, dyma'r peth sy'n bennaf gyfrifol am roi i bob ysgol ei chymeriad ungiol ac unigryw ei hun. Dyma'r rhan o'r cwricwlwm na ellir ei osod o dan benawdau- yr athroniaeth y tu cefn i'r dysgu ac ysgogiadau'r staff, ynglyn â'r ffordd y mae polisiau'r ysgol yn ystyried natur y gymdeithas a wasanaethir ganddi- dyna sy'n rhoi i ysgol ei chymeriad ei hun.

Yn Ysgol Sarn Bach rydym yn ymrechu i gynnig amrywiaeth eang o brofiadau er mwyn ysgogi anghenion gwahanol bob plentyn. Rydym yn sylweddoli fod disgyblion i gyd yn wahanol i'w gilydd a bod ganddynt yr hawl i lwyddo mewn gwhanaol ffyrdd. Nid pawb sy'n llwyddo'n academiaidd ac felly rydym yn gweld pwysigrwydd mewn rhoi amrywiaeth o brofiadau er mwyn dangos a datblygu eu doniau tu allan i furiau'r dosbarth. Rydym yn arwain y plant i allu datrys problemau'n greadigol a defnyddio'u sgiliau wrth ddatblygu'n ddinasyddion y dyfodol.

## Mentro

Mae'r Ysgol yn annog y disgyblion i gymeryd rhan mewn gweithgar-eddau mentergarwch. Mae'r disgyblion wedi cael cyfle i gyd-weithio a chreu busnes er mwyn gwneud elw o werthu jam. Caiff y disgyblion brofiadau o hysbysebu, costio nwyddau, gwerthu a chyfrifo'r elw. Rydym yn manteisio ar bob cyfle i gael aelodau o fusesau lleol i gyd-weithio a'r ysgol er mwyn rhoi profiadau real i'r disgyblion o fyd busnes. Maent yn defnyddio elw o un fenter i ddatblygu menter arall.



## **Yr Urdd**

Mae gan yr ysgol draddodiad o gystadlu yn holl weithgareddau'r Urdd megis eisteddfodau, cefl a chrefft a chwaraeon.

## **Teithiau preswyl**

Bydd yr ysgol yn trefnu tripiau preswyl i'r plant yn flynyddol o flwyddyn 3 hyd at flwyddyn 6. Byddem yn cyd-weithio gyda ysgolion eraill cyfagos er mwyn i'r plant ddod i adnabod a chymdeithasu gyda'u cyfoedion o'r run oed yn yr ardal. Byddem yn codi tâl am yr ymaweliadau yma.

## **Plas Menai**

Caiff disgyblion 3 a 4 ymweld â Phlas Menai yn flynyddol am 1 noson/ 2 ddiwrnod lle cant brofiadau o weithgareddau awyr agored.

## **Caerdydd**

Bydd digbylion blwyddyn 5/6 yn cael ymweld â Prifddinas Caerdydd am 2 noson/ tridiau yn Nhymor yr Gwanwyn. Cant brofiad o weld y Cynulliad, Stadiwm y Mileniwm a nifer o sefydliadau eraill.



## **Ysgol Iach**

Mae Ysgol Sarn Bach yn rhan o Cynllun Ysgol Iach Gwynedd ac yn gweithio ar gam 5 o'r Cynllun erbyn hyn. Mae'r Cynllun yn galluogi'r i gyfrannu'n bositif atuag at lechyd a LlêS y disgyblion, athraon a'r gymuned ehangach drwy ddatblygu'r amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd.

## **Ysgol Werdd**

Mae'r ysgol wedi ennill y wobr efydd ac yn gweithio ar hyn o bryd i gael y wobr arian.

## **Cyngor Ysgol**

Bydd y disgyblion yn ethol aelodau o'r Cyngor Ysgol yn flynyddol. Eu gwaith yw sicrhau bod llais y plentynyn cael ei glywed a'i weithredu arno. Yn Ysgol Sarn Bach mae'r disgyblion yn cael cyfle i:

- Cynnig syniadau ar sut i wella eu hamgylchfyd dysgu.
- Rhoi barn a sylwadau am fywyd yr ysgol.
- Rhoid cyfle i ddisgyblion gyfrannu at wneud yr ysgol yn le hapusach.

## **Swyddogion Diogelwch y Ffyrdd**

Bydd y disgyblion yn ethol swyddogion Diogelwch y Ffyrdd yn flynyddol a'u gwaith fydd codi ymwybyddiaeth y disgyblion o Ddiogelwch wrth ddefnyddio'r ffordd fawr a'r peryglon sydd wrth ddefnyddio'r ffordd.

## ASESU

Mae asesu yn broses barhaus sy'n digwydd o ddydd i ddydd yn yr ysgol. Bydd yr athrawon yn asesu plant yn anffurfiol drwy'r amser - gan gofnodi asesiad ffurfiol bob tymor.

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol bydd yr athrawon yn crynhoi'r wybodaeth a rhoi asesiad diwedd blwyddyn i bob plentyn. Bydd plant pedair oed yn cael eu hasesu yn fuan ar ôl cyrraedd yr ysgol i roi asesiad gwaelodin o allu plentyn a'i anghenion.

Trosglwyddir y canlyniadau a'r asesiadau parhaus gan athro / athrawes Bl 6 i'r Ysgol Uwchradd fel bod y broses asesu'n gallu parhau'n rhwydd.

Yn fuan yn nhymor yr Hydref bydd canlyniadau'r asesiadau Blwyddyn 6 a hefyd ganranau presenoldeb yr ysgol ar gael i chwi yn yr ysgol drwy gysylltu â'r Pennaeth.

## SUT Y GALLAF HELPU I HYBU ADDYSG FY MHLENTYN?

Gosodir rhai canllawiau yma ynglyn â'r math o bethau yn fras y gall rhiant ddysgu i blant i'w galluogi i roi cymorth ychwanegol i'w plentyn yn yr ysgol.

|                                                                                                                                     |                                                  |                                   |  |  |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------|-----------------------------------|--|--|
| <b>Meithrin</b>                                                                                                                     |                                                  |                                   |  |  |
| *Dysgu lliwiau                                                                                                                      | *Gafael mewn pensel yn gywir                     | *Cyfri i 10                       |  |  |
| *Gwneud lluniau                                                                                                                     | *Lliwio yn daclus                                | *Sgwrsio am ddigwyddiadau'r dydd  |  |  |
| *Adnabod rhai llythrennau a rhifau                                                                                                  |                                                  | *Darllen iddynt yn rheolaidd      |  |  |
| <b>Dosbarth Derbyn</b>                                                                                                              |                                                  |                                   |  |  |
| *Adnabod llythrennau a rhifau                                                                                                       | *Ysgrifennu llythrennau a rhifau                 | *Cyfrif at 20                     |  |  |
| *Darllen geiriau syml a llyfrau                                                                                                     | *Ysgrifennu geiriau a brawddegau syml            | *Cyfri fesul 10                   |  |  |
| <b>Blwyddyn 1 a 2</b>                                                                                                               |                                                  |                                   |  |  |
| *Gwybod tablau 2,5 a 10                                                                                                             |                                                  | *Sgwrsio yn y Gymraeg a'r Saesneg |  |  |
| *Adio a thynnu yn eu pen at 20                                                                                                      |                                                  | *Ysgrifennu brawddegau            |  |  |
| *Dweud yr amser (o leiaf ar yr awr, hanner awr wedi a chwarter wedi)                                                                |                                                  |                                   |  |  |
| <b>Blwyddyn 3 a 4</b>                                                                                                               |                                                  |                                   |  |  |
| *Gwybod tablau 2,3,4,5, 6 a 10 o leiaf                                                                                              | *Dweud yr amser ar gloc analog, defnyddio arian. |                                   |  |  |
| *Ysgrifennu Cymraeg a Saesneg - llythyrau, storïau                                                                                  |                                                  |                                   |  |  |
| *Trafod a sgwrsio gan fynegi barn yn synhwyrol yn y ddwy iaith.                                                                     |                                                  |                                   |  |  |
| <b>Blwyddyn 5 a 6</b>                                                                                                               |                                                  |                                   |  |  |
| *Gwybod tablau i gyd at 10 erbyn Nadolig Blwyddyn 5                                                                                 |                                                  |                                   |  |  |
| *Ysgrifennu Cymraeg a Saesneg - storïau, llythyrau, ayyb heb fawr o gamgymeriadau sillafu - storïau - tua ochr A4 mewn 45 munud-awr |                                                  |                                   |  |  |
| *Trafod a sgwrsio yn hyderus yn y ddwy iaith gan ddefnyddio iaith gywir geirfa dda a mynegi barn a safbwynt yn glir.                |                                                  |                                   |  |  |

## **Darpariaeth ar gyfer Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

### **Egwyddorion**

Yr ydym fel ysgol yn anelu at weithredu yn unol â'r egwyddorion isod a fabwysiadwyd gan Bwyllgor Addysg Gwynedd.

- Sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i blant ag anghenion addysgol ychwanegol.
- Cyd-weithio'n effeithiol ag asiantaethau statudol eraill perthnasol i'r maes megis yr Awdurdod Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Sefydlu partneriaeth â rhieni a Cyrff Gwirfoddol sy'n eu cynrychioli.
- Sicrhau ymateb Awdurdod Addysg cyfan ac ysgol gyfan i Anghenion Addysgol Arbennig a pheidio â chyfyngu cyfrifoldeb i staff penodol.

### **Amcanion**

Ein nod yn Ysgol Sarn Bach yw gwneud ein gorau i sicrhau tegwch addysgol a chymdeithasol i bob un plenty ar draws yr ystod gallu. Gobeithiwn hefyd fedru gofalu fod pob unigolyn yn cael y cyfle gorau i weithio hyd at eithaf ei allu a hynny trwy waith ysgrifenedig neu ymarferol mewn cyd-destun dwyieithog. Gobeithio hefyd ein bod yn medru cael pob plentyn i sylweddoli'n llawn ei lawn botensial a'i ddawn unigryw ei hun.

Anelir ar:

- Sicrhau bod cyfundrefn yn bodoli yn yr ysgol i adnabod yn gynnar y plentyn sydd ganddo anawsterau a all fod yn llesteirio ei addysg.
- Casglu gwybodaeth ynghyd gan athrawon ac eraill i sicrhau y ceir dealltwriaeth orau am natur anawsterau'r plentyn.
- Sicrhau y caiff y ddarpariaeth angenrheidiol ei gwneud ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig.
- Sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rheini ac eraill mewn perthynas ag adnabod a darparu gwasanaeth.

## **Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**Mae cefnogaeth ADY yn gweithredu ar dair lefel:**

**Cymorth Ysgol-** mynegiant o bryder gan yr athro/athrawes. Cysylltu â'r rhieni i drafod. Rhoi'r plentyn ar y Gofrestr A.D.Y. Caiff y sefyllfa ei hadolygu o fewn tymor. Bydd y plentyn yn derbyn cymorth ychwanegol gan yr ysgol.

**Cymorth Ysgol a Mwy-** Os yw anghenion y plentyn yn fwy dwys, gelwir arbenigwyr megis Seicolegydd Addysg, Therapydd Iaith, Athrawes Cynnal Ymddygiad i mewn i gynnig cymorth i'r ysgol a thynnu Rhaglen Waith Unigol arbenigol i'r plentyn i gael ei weithredu yn yr ysgol.

**Datganiad/ CAU** - Bydd gorfodaeth ar Awdurdod Addysg lleol i ddarparu cefnogaeth a chymorth ariannol i'r ysgol i ddiwallu anghenion y plentyn e.e. ei leoli mewn uned arbennig, talu am gymorth o fewn y dosbarth a.y.y.b.

## **Polisi Anghenion Addysgol Arbennig Ysgol Sarn Bach**

(ar gael yn swyddfa'r Pennaeth)

Mae ADY yn rhan hanfodol o bob Cynllun Datblygu Ysgol.

Caiff pob Polisi ADY ei lunio gan yr holl staff a'r llywodraethwyr

Caiff ei adolygu a'i fonitro o leiaf un waith y flwyddyn.

## **Diffinio Cynnydd**

- Cau'r bwch cyrhaeddiad rhwng y disgybl a'i gyfoedion.
  - Atal y bwch cyrhaeddiad rhag lledu
  - Sicrhau ei fod yn gallu cymryd rhan yn y cwricwlwm cyfan
  - Dangos gwelliant mewn sgiliau hunan-gymorth, cymdeithasol neu bersonol.
  - Dangos gwelliannau yn ymddygiad y disgybl.
  - Tebygol o arwain at gyfleu gymryd rhan mewn addysg bellach, hyfforddiant a/neu waith.

Er mwyn monitor cywirdeb tynnu plentyn oddi ar restr ADY yr ysgol rhoddir prawf darllen Glannau Menai yn Gymraeg a Saesneg i'r plentyn (os yw'n briodol gwneud hynny)

## Cynigion i rieni i'w dilyn fel paratoad i Ysgol Sarn Bach

- Buasai o gymorth i'r plentyn petai'r rhieni yn siarad a thrafod ymweliadau a sgwrsio â nhw yn gyson.
- Anogir rhieni i ddarllen i'r plant yn ddyddiol a chwarae gyda nhw gan drin a thrafod y byd o'u cwmpas.
- Ni does angen gwneud gwaith ffurfiol ond helpu ymwybyddiaeth plentyn o rif trwy ddysgu rhigymau syml iddo.
- Gwnewch ddefnydd o'r grŵp Meithrin lleol er mwyn paratoui eich plentyn yn gymdeithasol ac yn ieithyddol ar gyfer addysg Gymraeg.
- Helpwch eich plentyn i gyflawni tasgau fel gwisgo, clymu carrai esgid, mynd i'r toiled (mae angen i'r plentyn fod allan o glytiau cyn cychwyn ysgol) defnyddio cyllell a fforc a thacluso.
- Datblygwch weithgareddau sy'n hybu sgwrs a hunan hyder.
- Helpwch eich plentyn i ddod yn gyfarwydd â siap ei enw/henw.
- Peidiwch â defnyddio prif lythrennau e.e. Sioned nid SIONED

**Rydym yn gofalu am 'berl' pwysicaf ym mywyd rhieni ac wrth gyd-weithio rydym yn anelu i wneud hynny mor effeithiol a phosib.**

**Os oes gennych unrhyw bryderon am Addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

Mrs Nina Williams— Pennaeth